**Enw'r Ysgol: Ysgol Abererch**

**Addysg Grefyddol**

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Mae safonau addysg grefyddol disgyblion Ysgol Abererch yn dda. Mae bron bob un yn cyflawni gwaith sy'n briodol i'w hoed a'u gallu yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 .
- Dengys dadansoddiad o inserts fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson a da mewn addysg grefyddol.
- Mae bron bob un disgybl yn ymdrin â chwestiynau sylfaenol ac yn archwilio i gredoau crefyddol yn llwyddiannus. Wrth graffu ar lyfrau disgyblion gwelir fod gan lawer o'r disgyblion wybodaeth dda am lyfrau a straeon sanctaidd, mannau addoli a defodau crefyddol sy'n bwysig mewn dathliadau Cristnogion a Mwslemiaid.
- Dengys craffu ar lyfrau gwaith hefyd fod y disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TgCH yn llwyddiannus mewn addysg grefyddol gyda'r disgyblion mwyaf galluog yn arddangos medrau da iawn. Enghraifft o hyn oedd llunio e-bostio personol i ofyn cwestiynau ynglŷn â'u dathliadau Diwali .

Nodiadau:
Angen mapio cyfleoedd i ddatblygu medrau corfforol
Angen mapio prif grefyddau ar draws CS a CA2

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn dda.**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**
***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Mae teithiau dysgu a siarad gyda disgyblion yn cadarnhau fod gan lawer o'r disgyblion ddiddordeb mewn addysg grefyddol a dysgu am grefyddau a chredoau eraill. Nodant er enghraifft fod addysg grefyddol yn eu dysgu sut i fyw bywyd teg a pharchu eraill a'r byd.
- Trwy wersi addysg grefyddol mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i edrych ar gwestiynau mawr bywyd megis 'Byd pwy ydi hyn?' neu 'Ydi pawb yr un peth er bod eu croen yn lliw gwahanol?' ym mlwyddyn 3 a 4.

Nodiadau:

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn dda.**

**Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Trwy waith mapio gofalus o fframwaith Cyfnod sylfaen a chwricwlwm cyfnod allweddol 2 a'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru mae'r athrawon yn sicrhau fod holl ofynion statudol addysg grefyddol yn cael eu cyflawni.
- Trwy addysgu addysg grefyddol yn thematig sicrheir fod diddordeb gan y disgyblion. Cynigir ystod dda o brofiadau symbylus, ysgogol a heriol ar gyfer diwallu anghenion pob disgyblion gan gynnwys disgyblion ADY a disgyblion MAT. Mae polisi cyfle cyfartal a pholisi cydraddoldeb yn cadarnhau hyn.
- Mae arsylwadau gwersi AG yn cadarnhau fod y disgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn llwyddiannus iawn a bod medrau pwnc llawer o'r disgyblion yn gadarn dda.
- Mae ansawdd cynllunio AG yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth a medrau blaenorol yn dda ond mae lle i wella'r gwaith mapio crefyddau eraill. Bydd angen ail-edrych ar y cynllunio i ymateb i argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'.

- Trwy drefnu ymweliadau i leoliadau crefyddol o leiaf unwaith pob blwyddyn megis i eglwys y pentref a chynnal priodas ffug neu gael cyflwyniad gan y ficer am ei waith yn yr eglwys , mae'r disgyblion yn cael ystod o brofiadau tu allan i'r stafell ddosbarth a datblygir eu diddordeb mewn addysg grefyddol.
- Mae'r addysg grefyddol yn adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol lle mae bron bob un disgybl naill ai yn Gristnogion neu yn ddigrefydd.

Nodiadau:

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn dda.**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**

***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Mae gwersi addysg grefyddol yn helpu disgyblion yn dda i fod yn ddinasyddion gweithredol. Dengys taflen amser addoli ar y cyd fod y disgyblion yn cael cyflwyniadau a gwasanaethau ar themâu sy'n eu hannog i fod yn ddinasyddion gweithredol a chydwybodol . Manteisir ar gyfleoedd cymunedol i ddatblygu hyn ymhellach megis canu emyn ar cd elusennol a chanu carolau yn Hwyl yr ŵyl Pwllheli adeg y Nadolig.
- Cynhelir gwasanaethau addoli ar y cyd yn rheolaidd gan arweinwyr crefyddol o'r gymdeithas megis y gweinidog a'r Tad Dylan, ficer Eglwys Abererch a thrwy hyn daw'r disgyblion i ddeall eu gwaith yn y gymdeithas.
- Wrth wneud gwaith ar brif ddathliadau crefyddol Cristnogol megis Pasg, Sulgwyn a'r Nadolig mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i fyfyrio ar gwestiynau sylfaenol a gwerthoedd eu hunain megis 'Pa mor bwysig ydi'r Pasg i Gristnogion?' neu 'Beth yw arwyddocâd yr anrhegion adeg y Nadolig?'.
- Defnyddir gwasanaethau dosbarth ac ysgol gyfan i drafod materion yn ymwneud a chydraddoldeb ac amrywiaeth megis trafod teulu Rabin o Nepal sydd yn byw bywyd dipyn gwahanol i ni.
- Mae'r disgyblion yn dysgu am grefyddau eraill trwy sefyllfaoedd real er enghraifft pan mae disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn ysgrifennu i'w 'pen-pal' mewn ysgol yn Llundain ac yn cael gwybod eu bod yn dilyn crefydd Mwslim neu Islam ac mae hyn yn gwneud iddynt sylweddoli nad ydi pawb yn addoli yn yr un ffordd a Christnogion.
- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd.
- Cadarnhaodd Arolygwyr Estyn yn yr arolygiad diweddar (Chwefror 2018) fod yr ysgol yn cynnal cyfnodau effeithiol o addoli ar y cyd yn rheolaidd, gan hybu dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth a meithrin eu medrau ysbrydol a moesol yn llwyddiannus.

Nodiadau:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | √ | **Nac ydy** | |

**Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn dda.**

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**

***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?***

- Mae 'r cydlynydd addysg grefyddol yn arwain y pwnc yn effeithiol trwy fonitro cynlluniau a chynnal teithiau dysgu ac yn adrodd yn ôl yn llwyddiannus i'r pennaeth o'r canfyddiadau.
- Nododd holiadur staff y buasai llawer ohonynt yn manteisio ar ddatblygiad proffesiynol mewn addysg grefyddol petai cyfle yn codi .
- Hysbysir rhieni o'u hawl i dynnu disgyblion allan o wersi addysg grefyddol yn llawlyfr yr ysgol. Nid oes disgybl yn cael ei eithrio ar hyn o bryd.

Nodiadau:
Angen buddsoddi mewn adnoddau i gynorthwyo addysgu addysg grefyddol.
Holi ynglŷn â chyrsiau hyfforddi AG.

**Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn dda.**

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| Angen mapio cyfleoedd i ddatblygu medrau corfforol<br><br>Angen mapio prif grefyddau ar draws CS a CA2 | 1. Penderfynu ar fformat cynllunio-mapio tymor hir CA2.<br><br>2. Cydlynydd i fonitro cynlluniau-adrodd yn ôl i'r pennaeth. | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| Angen buddsoddi mewn adnoddau i gynorthwyo addysgu addysg grefyddol. | 1. Cydlynydd i lunio awdit o'r holl adnoddau.<br><br>2. Blaenoriaethu pa adnoddau fydd yn diwallu gofynion y cwricwlwm. | | |
| Holi ynglŷn â chyrsiau hyfforddi AG. | 1. Chwilio am gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant AG.<br><br>2. Cyd-weithio gydag ysgolion grŵp ysgol i ysgol- rhannu arferion da. | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Mae'r ysgol yn diwallu gofynion addysg grefyddol yn llawn .Cadarnhaodd arolygiad Estyn yn Chwefror 2018 fod yr ysgol yn cynnal cyfnodau effeithiol o addoli ar y cyd yn rheolaidd, gan hybu dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth a meithrin eu medrau ysbrydol a moesol yn llwyddiannus.

**Enw'r pennaeth Annwen Hughes**
**Llofnod y pennaeth** A hughes
**Dyddiad: 30/04/18**